

Cafodd T. Solomon Griffiths ei eni yn Llanrhuddlad, Ynys Môn, ar Fai 30ain, 1835, yn fab i John, a anwyd yn Llanbedrog, Llŷn, 1803, a marw Rhagfyr 18, 1884, yn 81 mlwydd oed, ac Elizabeth Griffiths. Yr oedd yn ŵyr i'r Parch. Griffith Solomon (1774-1839) a ddaeth i Llŷn yn 1800 i gadw ysgol, ac a fu'n weinidog yn Llanbedrog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; ac ef oedd awdur 'Eglurhad ar y Ddeuddegfed bennod yn Llyfr y Pregethwr' (Robert Jones, Pwllheli, 1832). 'Eglurhad Beirniadol a Chymwysiadol ar Lyfr y Pregethwr' (J. A. J. Parry, Caerleon) a 'Pregeth ar Ffydd, Gobaith a Chariad': ynghyd â Sylwadau ar y Saith Ganhwylbren Aur, a'r Dduwiol Anian' (1854). Hen daid T. Solomon Griffiths oedd Solomon Jones o Blwyf Llandwrog, Arfon, a oedd yn byw mewn tyddyn bychan yn Nhalysarn, ac yn chwarelwr wrth ei alwedigaeth.

Ymfudo i Efrog Newydd

Symudodd T. Solomon Griffiths i Lerpwl yn 1857, a phum mlynedd yn ddiweddarach, ymfudodd i Efrog Newydd, lle yr arhosodd am dair blynedd. Yr oedd y pryd hwnnw yn weithgar ac yn llawn egni gyda chrefydd. Ymaelododd yn Eglwys Gymraeg M.C. Efrog Newydd (11th Street, 1826/1872) o dan weinidogaeth y Parch. William Roberts (1809-1887), a oedd yn frodor o Llanerchymedd, Môn. Dewiswyd ef yn fuan yn Arolygwr yr Ysgol Sul ac hefyd yn Llywydd y Gymdeithas Lenyddol.

Priodi yn Utica

Ym mis Mai, 1865, symudodd o Efrog Newydd i Utica, yn yr un dalaith, lle yr ymsefydlodd fel masnachwr dillad ar Heol Genesee, ac yno y cyfarfu ef â Mary Ann Williams a bu'r ddau briodi ar Fedi 8fed, 1868. Un o Lanestyn, ger Pwllheli, oedd ei wraig. Ganwyd hi ar Awst 18fed, 1842, yn ferch i Robert J. Williams, adeiladydd wrth ei alwedigaeth a fu farw ar 28 Ionawr 1885, ac Anna a anwyd 21 Mehefin 1817 a fu farw Mehefin 18 1889. Meich i Hugh a Laura Williams o blwyf Nefyn, Llŷn, oedd hi. Pan oedd tua saith mlwydd oed, symudodd i Lanestyn lle y bu hi'n byw hyd nes iddi briodi. Yn 1843, ar fwrdd y Princess Charlotte, glaniodd y teulu yn Quebec, Canada. Oddieithr ychydig amser y buont yn byw yn Clinton, Efrog Newydd, treuliodd Robert J. ac Anna Williams weddill eu hoes yn byw yn 27 Mary Street, Utica.



Capel Moreia, Park Avenue, Utica

Codwyd ef yn flaenor yn Eglwys Gymraeg Utica (Seneca Street) yn 1872. Gwasanaethodd yn anrhydeddus a ffyddlon drwy gydol gweinidogaeth wyth o weinidogion yr eglwys sef: y Parchedigion William Rowlands, Ebenezer Jones, Thomas Bennett Thomas, James Jarrett, William Roberts, Robert Williams, John Hughes Parry a David Morgan Richards. Yn ystod ei swydd fel blaenor, gwelodd gyfnod gwerthu'r capel yn 1879 pryd y codwyd capel newydd, (O ddiddordeb, rhoddwyd yr enw Moriah arno gan Mary Williams, merch Robert ap Gwilym Ddu, a'i enwi ar ôl Capel Moriah, Caernarfon). Bu T. Solomon Griffiths hefyd yn Llywydd y Cyfarfod Dosbarth, Llywydd Cymanta Efrog Newydd a Vermont, yn Drysorydd yr eglwys am dros hanner ei oes, yn Drysorydd y Genhadaeth ac yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.

Cael ei benodi yn Olygydd Y Cyfaill

O'r flwyddyn 1899 hyd 1910, ymgymerodd â'r swydd fel Golygydd Y Cyfaill, cylehgrawn misol y Methodistiaid Calfinaidd yn America, yn olynydd i'r Parch. H.P. Howell, D.D., Columbus, Ohio (1836/1899) gynt o Gemaes, Sir Drefaldwyn. Ar derfyn ei dymor gyda'r Cyfaill, cafodd y deyrnged ganlynol yng nghylchgrawn Cymraeg, Y Llusern, a ymddangosodd yn Saesneg yn y newyddiadur Utica Press:

"I regret to learn that the Editor of the 'Cyfaill' contemplates resigning his duties. Mr. Griffiths has served the Welsh in America with signal ability and faithfulness for many years, and it is not without much skill that a periodical owned by a body of people can be edited to the satisfaction of all. It appears that the Calvinistic Methodists of America are somewhat slow in their payment for the 'Cyfaill'. Reading between the lines, I fear that the venerable Editor is bearing part of the expenses from his own pocket on account of this unfaithfulness. If I were member of the Synod in America, and taking an active part in its works, I would argue for the release of the Editor from all financial obligation of the periodical and in favour of making each district responsible for the payment of all copies distributed within the district. But I am a British Methodist and therefore can only manifest my regret that Mr. Griffiths is to abandon the editorial chair at the end of the year." (1910)

Llywydd Cymdeithas y Cymreigyddion

Bu'n Llywydd Cymdeithas y Cymreigyddion ar sawl achlysur, ac yn Ysgrifennydd bedair gwaith. Bu hefyd yn arweinydd Eisteddfod Utica ar oddeutu chwe achlysur; ac yn Llywydd cyntaf Urdd yr Iforiaid yn Utica. Penodwyd ef yn Llywydd ei Bwrdd Cenedlaethol am ddwy flynedd, a gwasanaethodd am chwe mlynedd ar Fwrdd Elusennau Utica.

Yn 1896 cyhoeddodd *Hanes Methodistiaid Calfinaidd yn Utica, N.Y.* Y mae'r gyfrol wedi ei chyflwyno i'w fam-yng-nghyfraith, Mrs. Robert J. Williams, ac mae'n cynnwys 147 o dudalennau a nifer o luniau du a gwyn o'r hen gapel, gweinidogion, capel newydd y cyfnod hwnnw, yr ymddiriedolwyr, y blaenoriaid ac



T. Solomon Griffiths

arweinydd y gân, ynghyd â rhestr lawn o'r Swyddogion ac Aelodau yn 1896. Argraffwyd y llyfr gan wasg un o'r enw Thomas J. Griffiths (1835-1924), 131, Genesee St., Utica. Ganwyd ef yn Deerfield, ger Utica, ac ymfudwyr o'r Bala oedd ei rieni ef. Ni allai ef siarad na darllen yr iaith Gymraeg, eto llwyddodd i argraffu newyddiaduron Cymry America, megis rhai fel Y Drych, 'Cambrian a'r Cyfaill' am lawer blwyddyn, ac yn ogystal â thros 100 o lyfrau e.e. *Hanes Cymry America* gan R.R. Thomas (1887); y pamffledyn, *Utica Fire Department*, (1897); *Life Romance of Lloyd George* gan Beriah Gwynfe Evans (1916) a *Beyond the West* gan George W. Pie (1871). Yn 1991 ymddangosodd cyfieithiad Saesneg o gyfrol T. Solomon Griffiths, sef a *History of the Calvinistic Methodists in Utica, N.Y.* (Hanes Methodistiaid Calfinaidd yn Utica, N.Y.) gan y diweddar Brifathro Phillips G. Davies, Ames, Iowa, un â'i wreiddiau yn Nyffryn Teifi. Penodwyd T. Solomon Griffiths yn rheolwr Ysbyty y Dalaith, yn Utica.

Daeth profedigaethau lu i'w rhan

Bu ei wraig yn aelod blaenllaw yn holl weithgareddau Eglwys Moriah, Utica; yn athrawes yr Ysgol Sul, yn aelod o Gymdeithas Dorcas, a Chymdeithas Cymorth y Chwiorydd. Bu'n gefn mawr i'w gŵr pan oedd ef yn Olygydd Y Cyfaill. Cawsant eu cyfran o brofedigaethau bywyd, trwy gladdu dau o'u plant yn fabanod, ac un eneth brydferth arall, Anna Elizabeth, yn wyth mlwydd oed. Un o'r babanod a fu farw ydoedd un arall o'r enw Anna Elizabeth. Bu farw honno ar Fai 20fed 1881, yn 11mis a 10 niwrnod oed, ar ôl bod yn glaf am rai misoedd.

Daeth Solomon a Mary Ann ar ymweliad â Chymru yn 1884, ac yr oedd ganddynt dŷ haf ger Alder Creek, Swydd Oneida, Efrog Newydd. Bu Mary Ann farw yn ei chartref, 5 Miller Street, Utica, ar Fai 22ain, 1907, a bu T. Solomon Griffiths farw ar Hydref 4, 1914. Claddwyd hwy ym Mynwent Forest Hill, Utica.